

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb o'r rhaglen Gradd Sylfaen mewn Adeiladu Golygfeydd a gynigir o fis Medi 2021. A fyddoch chi'n nodi er bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigir hyd yma, y gallai gael ei haddasu a'i newid yn y dyfodol. Ymgynghorir â myfyrwyr bob amser ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Mae pob blwyddyn o'r cwrs yn werth 120 credyd. Er mwyn i fyfyrwyr allu symud o un flwyddyn i'r llall bydd angen iddynt lwyddo yn yr holl fodiwlau.

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2
Sgiliau Technegol 20 credyd	Cynhyrchiad 40 credyd
Ymarfer Cynhyrchiad 20 credyd	Sgiliau Parod am y Diwydiant 20 credyd
Profiad Cynhyrchiad 40 credyd	Ymarfer yn y Diwydiant 40 credyd
Cynhyrchiad 40 credyd	Ymarfer Proffesiynol 20 credyd

### Blwyddyn Un

#### Sgiliau Technegol

Credydau: 20

Asesiad: Prawf Ymarferol (75%), Adroddiad Ysgrifenedig (25%)

Bydd cyfres o arddangosiadau ymarferol, gweithdai a phrosiectau a gynhelir yn ein Stiwdios Llanisien yn cyflwyno'r myfyrwyr i rolau o fewn y tîm adeiladu. Bydd myfyrwyr yn astudio meysydd darllen lluniadau adeiladu, defnyddio offer llaw yn ogystal â pheiriannau, defnyddio'r gwahanol ddeunyddiau a ddefnyddir yn y diwydiant a chyflwyno'r materion lechyd a Diogelwch perthnasol. Bydd cyfres o sesiynau hwyrol yn parhau i ategu'r modiwl Profiad Cynhyrchiad a fydd yn cynnwys datblygiad rheoliadau lechyd a Diogelwch, codau ymarfer a deddfwriaeth.

#### Ymarfer Cynhyrchiad

Credydau: 20

Asesiad: Asesiad Ymarferol (75%), Gwaith Cwrs (25%)

Bydd yr hyfforddiant yn digwydd yn ein Stiwdios Llanisien yn ogystal â CBCDC a bydd yn datblygu ymhellach ddealltwriaeth myfyrwyr o waith y tîm adeiladu ar gyfer y llwyfan a'r sgrin. Bydd meysydd astudio yn cynnwys: defnydd rhaffau a chlymau; hedfan a rigio setiau ar gyfer theatr; cynlluniau; lluniadau; gweithio i raddfa a dylunio gyda chymorth cyfrifiaduwr; sgaffaldwaith a defnydd offer mynediad. Bydd myfyrwyr yn helpu i adeiladu elfennau golygfaol a chynorthwyo gyda'r gwaith ffitio ar gyfer cynhyrchiadau sydd i ddod gan Gwmni Richard Burton. Bydd myfyrwyr yn datblygu gwell dealltwriaeth o lechyd a Diogelwch yn ymwneud â gwaith cynhyrchu Theatr, Ffilm a Theledu, yn cynnwys cyflwyniad i sgysiaid blwch offer, asesiadau risg, datganiadau dull a rheoliadau adeiladu (dylunio a rheoli) (CDM).

### Profiad Cynhyrchiad

Credydau: 40

Asesiad: Lleoliad 1 (100 %), Lleoliad 2 (Llwyddo/Methu)

Bydd myfyrwyr yn treulio dau gyfnod ar leoliad, yn Stiwdios Llanisien a theatrau'r Coleg ac un gyda phartner o fewn y diwydiant.

Byddant yn cynorthwyo'r tîm adeiladu yn ôl y galw ac yn dysgu gweithio gyda'r tîm cynhyrchu yn ehangach a datblygu dull ar gyfer hunanwerthuso. Drwy gydol y modiwl hwn bydd myfyrwyr yn mynychu dosbarthiadau hwyrol ategol yn ymdrin â sgil dechnegol arbenigol. Bydd myfyrwyr yn datblygu ymhellach eu gwybodaeth am lechyd a Diogelwch a'r arferion lechyd a Diogelwch sy'n benodol i gwmni allanol.

### Cynhyrchiad

Credydau: 40

Asesiad: Lleoliad 1 (100 %), Lleoliad 2 (Llwyddo/Methu)

Bydd myfyrwyr yn treulio dau gyfnod ar leoliad, un yn Stiwdios Llanisien a theatrau'r Coleg ac un gyda phartner o fewn y diwydiant.

Byddant yn gweithio fel aelod o'r tîm adeiladu ac yn cydweithio â'r tîm cynhyrchu ehangach, gan ddangos sgiliau arweinyddiaeth pan f'n briodol a rhoi arfer gorau o ran lechyd a Diogelwch ar waith. Drwy gydol y modiwl hwn bydd myfyrwyr yn mynychu dosbarthiadau hwyrol ategol yn ymdrin â sgil dechnegol arbenigol.

### Blwyddyn Dau

#### Cynhyrchiad

Credydau: 40

Asesiad: Lleoliad 1 (100 %), Lleoliad 2 (Llwyddo/Methu)

Ar gyfer y lleoliad cyntaf bydd myfyrwyr yn mabwysiadu rôl uwch o fewn y tîm adeiladau yn cynhyrchu a gosod set ar gyfer cynhyrchiad Cwmni Richard Burton. Bydd dyletswyddau'n cynnwys gweithio gydag ystod o staff artistig, rheoli a thechnegol. Bydd myfyrwyr yn mynychu cyfarfodydd a grwpiau trafod fel sy'n ofynnol drwy gydol y broses. Yn ystod yr ail leoliad, bydd myfyrwyr yn gweithio fel aelod o dîm gyda phartner allanol yn y diwydiant, yn cyflawni disgwyliadau proffesiynol, gan weithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm.

Drwy gydol y modiwl hwn bydd myfyrwyr yn mynychu dosbarthiadau hwyrol ategol yn ymdrin â sgil dechnegol arbenigol a dealltwriaeth uwch o lechyd a Diogelwch.

#### Sgiliau Parod am y Diwydiant

Credydau: 20

Asesiad: Gwaith Cwrs (Llwyddo/Methu), Cyflwyniad (100%)

Cyfres o ddsbarthiadau, seminarau a gweithdai sy'n datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o'r diwydiant y maent yn bwriadu mynd iddo. Yn benodol, bydd y modiwl yn canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol, sgiliau cyflwyno, hyfforddiant rheoli ac ariannol tra'n datblygu ymhellach lefel uwch o wybodaeth am lechyd a diogelwch, ochr yn ochr â hyfforddiant sgiliau ymarferol uwch mewn weldio alwminiwm, gyrru wagenni fforch godi ac offer mynediad uwch.

#### Ymarfer yn y Diwydiant

Credydau: 40

Asesiad: Lleoliad 1 (50%), Lleoliad 2 (50%)

Bydd myfyrwyr yn mabwysiadu rôl arweiniol yn y tîm adeiladu mewn cynhyrchu a/neu osod set ar gyfer cynhyrchiad. Bydd eu dyletswyddau'n cynnwys gweithio gydag ystod o staff artistig, rheoli a thechnegol. Bydd myfyrwyr yn mynychu cyfarfodydd a grwpiau trafod fel sy'n ofynnol drwy gydol y

broses. Ar gyfer yr ail leoliad, bydd myfyrwyr yn gweithio fel aelod o dîm gyda phartner allanol yn y diwydiant, yn cyflawni disgwyliadau proffesiynol, gan weithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm.

Drwy gydol y modiwl hwn bydd myfyrwyr yn mynychu dosbarthiadau hwyrol ategol yn ymdrin â sgil dechnegol arbenigol.

### Ymarfer Proffesiynol

Credydau: 20

Asesiad: Dyddlyfr Myfyriol (50%), Cyflwyniad (50%)

Bydd myfyrwyr yn ymgymryd â rôl o fewn tîm adeiladu mewn swyddogaeth broffesiynol. Bydd eu dyletswyddau'n cynnwys gweithio gydag ystod o staff artistig, rheoli a thechnegol. Bydd myfyrwyr yn mynychu cyfarfodydd a grwpiau trafod fel sy'n ofynnol drwy gydol y broses.